Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb I Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prifarolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 6 Ionawr 2020 |
| **Pwnc / Subject:** | Canllawiau ar leihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

| **Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol** | | |
|---|---|---|
| **1. A yw nodau a phwrpas y Fframwaith fel y'u hamlinellir yn y Cyflwyniad yn glir ac yn hawdd eu deall?** | | |
| **Ydyn☐** | **Nac ydyn☐** | **Ddim yn siŵr ☑** |
| Rhowch sylwadau:<br><br>Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau arferion cyfyngol yn glir yn y cyflwyniad. Mae'n amlinellu cyd-destun y fframwaith yn glir, sy'n cyfrif yn briodol am y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.<br><br>Fodd bynnag, mae cwmpas y fframwaith yn llai eglur. Dywed y paragraff agoriad ar dudalen 2 a pharagraff 3 y cyflwyniad fod y fframwaith yn 'berthnasol ar draws y sectorau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol'. Er bod y bwriad hwn yn glir, nid yw'r cyflwyniad yn pennu'r grwpiau o bobl y mae'n cyfeirio atynt yn y cyd-destun hwn. O ganlyniad, mae gweddill y ddogfen yn darllen fel pe dylid ei chymhwyso i bob person y mae'r sefydliadau a enwir yn y ddogfen hon yn eu gwasanaethu, yn hytrach na'r rheiny ag anghenion penodol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig ac mae'n thema gyson yn ein hymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad.<br><br>Teimlwn y byddai'r ddogfen hon yn elwa o baragraff clir yn y cyflwyniad a luniwyd i ddileu'r ffiniau aneglur rhwng lleihau arferion cyfyngol a rheoli ymddygiad ar sail ysgol gyfan. Gallai'r paragraff:<br>• Nodi'n glir y bobl y mae'r ddogfen hon yn cyfeirio atynt (er enghraifft pobl ag anableddau dysgu, neu ddiffinio 'ymddygiad heriol' yn glir);<br>• Datgan nad yw'r fframwaith hwn yn disodli dogfennau gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth, a chyfeirio darllenwyr atynt.<br><br>Mae Estyn yn nodi'r gofyniad ym mharagraff 7 i ni 'ystyried cydymffurfiaeth â'r dull o weithredu sydd yn y Fframwaith pan [fyddwn] yn cynnal arolygiadau'. Lle y bo'n briodol, byddwn yn gwerthuso effaith unrhyw ddulliau gweithredu y bwriedir iddynt leihau arferion cyfyngol, ond bydd angen eglurhad pellach arnom o faterion a godir yn gysylltiedig â'r arweiniad er mwyn gwneud hynny'n effeithiol. Byddai'n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn cyfeirio darparwyr, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol at unrhyw sefydliadau neu grwpiau y mae ganddynt eisoes staff hyfforddedig a chymwysedig sy'n gallu cefnogi'r broses wella a dysgu. Bydd hyn yn gofyn am ddull gweithredu strategol, system gyfan, sy'n sicrhau cefnogaeth i | | |

| |
|---|
| ymarferwyr ar yr un pryd â chyhoeddi'r arweiniad. |

| | | |
|---|---|---|
| **2. A yw Pennod 1 yn amlinellu gwybodaeth am fframwaith hawliau dynol i leihau arferion cyfyngol mewn ffordd glir a defnyddiol?** | | |
| **Ydy☑** | **Nac ydy☐** | **Ddim yn siŵr ☐** |
| Mae'r adran hon yn glir ac yn ddefnyddiol. Mae'n gosod y ddogfen yn ei chyd-destun cyfreithiol yn effeithiol, yn amlygu agweddau pwysig ar y Fframwaith Hawliau Dynol ar gyfer Cyfyngu, ac mae'n cyfeirio darllenwyr yn briodol at y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'n pwysleisio'r disgwyliadau a osodir ar sefydliadau yn gysylltiedig â pholisïau a'u gweithredu. Mae'n datgan yn glir y dylai pob asiantaeth sicrhau ei bod yn gweithredu yn unol â pharamedrau deddfwriaeth a chanllawiau sy'n berthnasol iddi. Hefyd, mae'n nodi'n glir fod gan bob unigolyn hawliau. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **3. A yw Pennod 2 yn darparu gwybodaeth am Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol mewn ffordd glir a defnyddiol?** | | |
| **Ydy☐** | **Nac ydy☑** | **Ddim yn siwr☐** |
| Nid yw Estyn yn ffafrio dulliau gweithredu penodol, ond mae'n llunio barn ar sail effeithiolrwydd yr arferion y mae ysgolion yn eu defnyddio yn gysylltiedig â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin. Fodd bynnag, cytunwn fod gwella ansawdd bywyd i blant a chynnwys plant wrth wneud penderfyniadau yn egwyddorion pwysig.<br><br>Mae Pennod 2 yn rhoi gwybodaeth gefndir ddefnyddiol am Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS). Mae'n rhoi cyfeiriadau gwerthfawr at ymchwil yn y maes ac yn esbonio'r pedair prif elfen yn glir. Mae'r ddogfen yn esbonio'n glir bwysigrwydd adolygu darpariaeth yn rheolaidd ac mae'n rhoi cyngor gwerthfawr ynghylch hyfforddiant.<br><br>Fodd bynnag, mae diffyg eglurder ynghylch cwmpas Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn codi materion pwysig, yn arbennig mewn perthynas ag ysgolion prif ffrwd. Mae paragraff 22 yn rhoi'r cyfeiriad cyntaf yn y ddogfen at grŵp penodol o bobl pan mae'n cyfeirio at 'pobl sydd ag ymddygiad heriol, neu sydd mewn perygl o ddatblygu hynny'. Dyma'r awgrym cyntaf nad ysgrifennwyd y ddogfen hon gyda phob defnyddiwr gwasanaeth mewn golwg. Mae ffynonellau eraill yn gliriach am gwmpas dull gweithredu Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol. Er enghraifft, dyma ddisgrifiad y Comisiwn Ansawdd Gofal o Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol:'fframwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar gyfer darparu cymorth hirdymor i bobl ag anabledd dysgu, a/neu awtistiaeth, gan gynnwys pobl â chyflyrau iechyd meddwl sydd ag, neu sydd mewn perygl o ddatblygu, ymddygiadau heriol'[i]. Yn yr un modd, mae gwefannau'r Challenging Behaviour Foundation[ii] a'r PBS Academy[iii]yn gosod y defnydd o Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn glir yng nghyd-destun pobl ag anableddau dysgu. | | |

Heb wahaniaethau o'r fath, byddai goblygiadau sylweddol i sefydliadau o ran rheoli ymddygiad, yn enwedig i blant sy'n gwneud dewisiadau amhriodol yn ystod eu haddysg, ond na fyddid yn cael eu hystyried yn blant ag anableddau dysgu. Mae dogfennau gwybodaeth Llywodraeth Cymru, 'Dulliau ymarferol o reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth' ar gyfer ysgolion cynradd[iv] ac uwchradd[v],yn amlinellu arweiniad gwerthfawr i ysgolion ar hyrwyddo ymddygiad da. Mae'r rhain yn tynnu'n helaeth ar systemau sy'n seiliedig ar reolau, gwobrau a chanlyniadau a ddefnyddir yn helaeth mewn ysgolion ledled Cymru. Maent yn cyfeirio at ddefnyddio cosbau'n effeithiol, gan gynnwys enghreifftio pethau fel tynnu disgyblion o'r grŵp/dosbarth; tynnu disgyblion o wers benodol neu grŵp penodol o gymheiriaid; atal disgyblion rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau'r tu hwnt i'r cwricwlwm; cadw disgyblion i mewn; a cholli breintiau, fel amser chwarae. Ymddengys fod y rhain yn groes i'r diffiniad o arferion cyfyngol yn y ddogfen hon, ac eto maent yn gonglfaen hanfodol i arferion presennol llawer o ysgolion.

I wella eglurder, byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfeirio at y dogfennau hyn yn y testun ac esbonio bod Llywodraeth Cymru'n parhau i hyrwyddo'r wybodaeth ynddynt ar gyfer disgyblion nad oes ganddynt ddiagnosis o anableddau dysgu neu ddisgyblion nad yw'r 'ymddygiad heriol' yn diwallu'r meini prawf diffiniedig.

**4. A yw Pennod 3 yn esbonio'r egwyddorion ar gyfer ymarfer i ategu lleihau arferion cyfyngol mewn ffordd glir a defnyddiol?**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy**☐ | **Nac ydy**☑ | **Ddim yn siwr**☐ |

Amlinellir yr egwyddorion yn glir ac maent yn deillio o ymchwil sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth. Maent yn gosod disgwyliadau clir i arweinwyr sefydliadau, gan gynnwys disgwyliadau pendant o ran cofnodi digwyddiadau. Mae'r adran ar hyfforddiant yn darparu manylion gwerthfawr i arweinwyr sefydliadau.

Mae nifer o baragraffau (er enghraifft 61, 81) a allai fod yn groes i bolisïau ysgol gyfan ar ymddygiad ac y gellir eu camddehongli gan randdeiliaid, oni bai bod gan yr arweiniad ddatganiad agoriadol cliriach am gwmpas y ddogfen. Cyfeiriwch at ein hymateb i gwestiwn 3.

Gallai'r ymadrodd sy'n dod â pharagraff 43 i ben, "yn aml ... ar goll neu wedi'u llygru mewn diwylliannau cyfyngol a chamdriniol" gael ei aralleirio fel a ganlyn: "yn cael eu hystyried yn allweddol wrth leihau ymarfer cyfyngol", a fyddai'n ddatganiad mwy cadarnhaol. Bydd y gynulleidfa ar gyfer hyn yn eang ac amrywiol ac awgrymwn ddefnyddio iaith sy'n annog dysgu ac archwilio arfer orau. Bydd hyfforddiant priodol a chyfeirio ymarferwyr at sefydliadau yr amlygwyd bod ganddynt arfer effeithiol yn bwysig i ategu'r arweiniad.

**5. A yw Pennod 4 yn esbonio egwyddorion defnyddio arferion cyfyngol mewn ffordd glir a defnyddiol?**

| Ydy☐ | Nac ydy☑ | Ddim yn siwr☐ |
|---|---|---|

Mae'r adran hon yn codi llawer o faterion, yn enwedig o ran rheoli ymddygiad plant mewn ysgolion prif ffrwd am resymau a amlinellwyd eisoes.  Cyfeiriwch at ein hymateb i gwestiwn 3.

Mae'r canllaw'n cydnabod bod camddealltwriaeth mewn gwahanol leoliadau ynghylch ystyr arwahaniad. Byddai egluro ystyr 'arwahaniad' yn well yn helpu i osgoi gormod o wahanol ddehongliadau ar draws yr amrywiaeth fawr o leoliadau addysg, ystodau oedran a galluoedd.

Ym mharagraff 86,gallai'r ymadrodd 'yn methu gadael heb ganiatâd' ddrysu rhai ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc 4 i 18 oed.  Byddai rhaglen o ddysgu proffesiynol effeithiol a phwyntiau atgyfeirio clir ochr yn ochr â'r arweiniad yn helpu i osgoi camddehongli'r arweiniad.

Ar y cyfan, mae'n bosibl y gallai paragraffau83 i 89 achosi dryswch i ddarparwyr addysgol.  Gallai Llywodraeth Cymru ddatrys hyn trwy raglen o ddysgu proffesiynol effeithiol.  Fel y nodwyd yn flaenorol, byddai'n helpu pe cyfeirir at arweiniad presennol ar reoli ymddygiad er mwyn gosod y defnydd ar arferion cyfyngol o fewn sbectrwm ehangach dulliau o reoli ymddygiad.

**6. A yw'r wybodaeth yn yr eirfa a'r atodiad yn ddefnyddiol?**

| Ydy☑ | Nac ydy☐ | Ddim yn siwr ☐ |
|---|---|---|

Ar y cyfan, mae'r wybodaeth yn yr eirfa a'r atodiad yn ddefnyddiol.  Mae'r rhan fwyaf o'r diffiniadau yn glir ac yn cynorthwyo'r darllenwr lleyg i ddehongli corff y ddogfen yn dda.  Fodd bynnag, un ateb i'r materion a godwyd gennym o ran cwmpas y ddogfen hon fyddai ychwanegu at y disgrifiad o 'ymddygiad heriol'.  Yn yr un modd, nid yw'r diffiniadau a ddefnyddir yn y ddogfen hon ar gyfer arwahaniad, ynysu gorfodol ac ataliaeth amgylcheddol yn ddigon clir i ysgolion allu gwahaniaethu rhwng arferion derbyniol ac annerbyniol.  Byddai'n ddefnyddiol egluro'r diffiniadau ac ystyried cynnwys mwy o enghreifftiau i helpu dealltwriaeth ymarferwyr.

**7. Hoffem wybod eich barn am effeithiau'r canllaw ar y Gymraeg, ac yn benodol ar**

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a

ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Pe effeithiau allai fod? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Mae'r arweiniad yn gosod disgwyliadau clir iawn ynghylch hyfforddiant. Bydd angen sicrhau bod digon o hyfforddwyr ar gael i gyflwyno sesiynau yn Gymraeg i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Hefyd, bydd angen i unrhyw adnoddau ategol fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd.

Byddem yn gwerthfawrogi cysondeb wrth gyfieithu byrfoddau termau allweddol, e.e. mae'r fersiwn Cymraeg yn defnyddio byrfoddau Saesneg yn anghywir ar gyfer termau fel PBS ac ACEs.

8. **Byddai o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru ddeall p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon ynghylch yr arweiniad hwn yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Dyma nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych o'r farn y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pham ddim?**

| **Byddant☑** | **Na fyddant☐** |
|---|---|

Mae gan y ddogfen hon bwyslais clir ar hyrwyddo hawliau pobl a allai fod yn destun arferion cyfyngol, gan gynnwys eu cynnwys mewn penderfyniadau allweddol. Bydd hyn yn aml yn cynnwys pobl ag anabledd ac, yn hynny o beth, mae'r ddogfen hon yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn yn benodol. Mae ganddo'r potensial i sicrhau cydweithrediad â rhanddeiliaid ac eiriolwyr ehangach. Bydd sicrhau bod ymarferwyr yn ystyried bod gwella ymarfer yn broses ddysgu a mireinio gyson yn bwysig iawn. Canlyniad y broses yn y pen draw yw nad yw'r un dysgwr nac ymarferwr yn teimlo'i fod ar ei ben ei hun a sicrhau bod sefydliadau'n anelu at arfer orau ac yn adolygu'u harferion yn systematig. Hefyd, mae'n cyflwyno'r cyfle i sicrhau bod cyfrifoldebau o ran atal arferion cyfyngol wedi'u diffinio'n glir ym mhob haen yn y system. Dylai sicrhau bod adnoddau priodol yn eu lle a bod pob rhanddeiliad yn deall eu cyfrifoldebau.

Mae rhywfaint o botensial am ddeilliannau anffafriol neu wrthdaro. Mae'r agenda hawliau yn berthnasol i bawb (t.6 18 'Mae hawliau dynol ar gyfer pawb, yn gyfartal'). Gellid ystyried bod rhai o ymddygiadau a welir gan blant a phobl ifanc yn atal eraill rhag manteisio ar eu hawl i addysg. Gall rhai elwa o fynychu lleoliad mwy addas ac mae hyn yn dwyn goblygiadau cysylltiedig gydag ef i adnoddau a staffio. Oni bai bod hyn yn cael ei reoli'n ofalus, mae potensial i hyn achosi gwrthdaro a phryder ymhlith amrywiol randdeiliaid mewn lleoliad ysgol. Gallai'r gwrthdaro rhwng hawliau pob parti fod yn anodd i ysgolion a staff sydd yng nghanol trafodaethau o'r fath ei reoli heb gefnogaeth asiantaethau allanol.

O ran ataliaeth gemegol, nid oes dyletswydd gyfreithiol na chytundebol ar athrawon i

| |
|---|
| roi meddyginiaeth na goruchwylio disgybl yn cymryd meddyginiaeth. Rôl gwbl wirfoddol yw hon ac fe'i cydnabyddir felly gan Lywodraeth Cymru. Er bod gan athrawon ddyletswydd gofal cyfreithiol, cyffredinol tuag at eu disgyblion, nid yw hyn yn ymestyn i ofyniad i roi meddyginiaethau yn rheolaidd. Rhaid i staff sydd â chyfrifoldeb i roi meddyginiaeth gael eu hyfforddi'n briodol. Mae sgîl-effeithiau gan rywfaint o'r feddyginiaeth a roddir i ddysgwyr i gyflawni canlyniadau iechyd allweddol. Os yw'n bosibl y gallai rhoi meddyginiaeth gael ei ddiffinio'n arfer cyfyngol, gallai staff fod yn amharod i wneud hynny. Yn anfwriadol, gallai hyn gael effaith negyddol a rhoi pwysau ychwanegol ar ymarferwyr iechyd a theuluoedd i roi meddyginiaeth yn ystod amser ysgol. Mae'n bwysig bod yr arweiniad hwn yn cael ei ryddhau i asiantaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau allanol perthnasol eraill ar yr un pryd â darparwyr addysg. Bydd gwaith rhyngasiantaeth effeithiol yn helpu i sicrhau bod dysgwyr agored i niwed yn parhau i ffynnu a derbyn y ddarpariaeth leiaf cyfyngol posibl.<br><br>Ar y cyfan, mae Estyn yn croesawu'r arweiniad hwn. O gynllunio'n strategol ymlaen llaw a sicrhau bod staff hyfforddedig arbenigol yn eu lle, mae ganddo'r potensial i sicrhau bod pob haen a rhanddeiliad yn cydweithio i ddysgu a datblygu'u harfer yn gyson. Hefyd, bydd yn ategu ac yn cyd-blethu i egwyddorion y bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'n bwysig bod yr arweiniad yn cael ei gyflwyno'n sensitif, gyda chefnogaeth briodol, oherwydd bydd rhai ysgolion yn gweithio ar eu pen eu hunain i ddehongli'r arweiniad hwn ar adeg o newid sylweddol yn y system addysg. |
| **9. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, a fyddech gystal â defnyddio'r lle hwn er mwyn adrodd amdanynt:** |
| Rhowch fanylion yma: |

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych pe bai eich ymateb yn anhysbys, ticiwch y blwch:**

☐

[i] Care Quality Commission (Ebrill2017) Brief guide: Positive behaviour support for people with behaviours that challenge v4, 20180705 900824

[ii]https://www.challengingbehaviour.org.uk/information/information-sheets-and-dvds/positive-behaviour-support.html Defnyddiwyd ar: 30/10/19

[iii]http://pbsacademy.org.uk/ Defnyddiwyd ar: 30/10/19

[iv]Llywodraeth Cymru Dogfen Wybodaeth Rhif: 117/2012 (2012) 'Dulliau ymarferol o reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth, Llawlyfr i athrawon dosbarth mewn ysgolion cynradd'

[v] Llywodraeth Cymru Dogfen Wybodaeth Rhif: 086/2010 (2010) 'Dulliau ymarferol o reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth, Llawlyfr i athrawon dosbarth mewn ysgolion uwchradd'